


CYTUNDEB YSGOL / CARTREF



	Fel ysgol byddwn yn gwneud ein gorau ...	Fel rhiant byddaf yn gwneud fy ngorau ...	Fel disgybl byddaf yn gwneud fy ngorau ...
Safon yr Addysg	i ddarparu'r addysg orau o ystyried yr adnoddau sydd ar gael i gynnig cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol yn seiliedig ar ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol i osod targedau blynyddol ar gyfer pob disgybl	i gymryd diddordeb yng ngwaith fy mhlentyn i'w annog i wneud ei orau bob amser i'w annog i wrando ar ei athrawon a gweithio'n galed yn y dosbarth	i wrando ar yr athrawon a gweithio'n galed yn y dosbarth i wneud fy ngorau glas i gwblhau pob tasg i anelu ar roi'r ymdrech orau bob amser
Ethos yr Ysgol	i hyrwyddo agweddau cadarnhaol ac arddel disgwyliadau uchel i hyrwyddo parch tuag at athrawon, disgyblion a'r gymuned i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol pob plentyn	i gefnogi fy mhlentyn yn yr hyn a ddisgwylir gan yr ysgol i annog fy mhlentyn i fod yn foesgar a chwrtais gan ddangos parch tuag at eraill i ddangos diddordeb yng ngweithgareddau'r ysgol ac annog fy mhlentyn i gymryd rhan	ymdrechu hyd eithaf fy ngallu bob amser i fod yn foesgar, yn gwrtais ac i ddangos parch tuag at eraill i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol
Presenoldeb Rheolaidd	i annog a gwobrwyo presenoldeb a phrydlondeb da i ddwyn presenoldeb gwael neu afreolaidd i sylw'r rhieni a chymryd y camau priodol i ddelio â'r broblem	i wneud yn siwr fod fy mhlentyn yn mynychu'r ysgol bob dydd i hysbysu'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb fy mhlentyn	i fynychu'r ysgol bob dydd i gyrraedd yr ysgol yn brydlon
Disgyblaeth ac Ymddygiad	i sicrhau fod pob disgybl yn ymddwyn yn ôl disgwyliadau'r ysgol i sicrhau bod pob disgybl yn parchu'r staff, ei gilydd ac eiddo eraill	i annog fy mhlentyn i ymddwyn yn deilwng bob amser i annog fy mhlentyn i gydymffurfio â disgwyliadau'r ysgol ac i barchu pob un o'r athrawon a'r disgyblion eraill	i ymddwyn yn rhesymol y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol, gan barchu'r athrawon a'r disgyblion eraill a rheolau'r ysgol i barchu eiddo'r ysgol ac eiddo fy nghyd-ddisgyblion
Gwaith Cartref	i ddarparu gwaith cartref yn ôl trefn yr ysgol i fynnu gwaith o'r safon uchaf i fynnu bod y gwaith cartref yn cael ei gwblhau'n brydlon	i ddangos diddordeb yng ngwaith cartref fy mhlentyn i annog fy mhlentyn i gwblhau pob gwaith cartref yn brydlon	i wneud fy ngwaith cartref yn ofalus ac yn ôl cyfarwyddyd i wneud fy ngorau i orffen pob gwaith cartref a'i gyflwyno'n brydlon
Cefnogaeth Fugeiliol	i ofalu am ddiogelwch a hapusrwydd pob plentyn i ddarparu trefn gynhaliol sy'n rhoi clust i bryderon ac yn ymateb yn gyflym iddynt	i roi gwybod i'r ysgol am unrhyw bryderon a allai effeithio ar gynnydd fy mhlentyn	i hysbysu fy athrawon neu'r Pennaeth os bydd gennyf unrhyw bryderon a allai effeithio ar fy ngwaith neu ar fy hapusrwydd yn yr ysgol
Cysylltiadau Rhwng yr Ysgol a'r Cartref	i gynnal nosweithiau rhieni rheolaidd i drafod cynnydd i ddarparu adroddiadau blynyddol i'ch hysbysu am bolisiau a gweithgareddau	i fynychu cyfarfod rhieni i ddarllen llythyrau ac unrhyw ohebiaeth arall o'r ysgol ac ymateb iddynt	i fynd a phob llythyr a gohebiaeth arall adref